BWRDD **TALIADAU**
**REMUNERATION** BOARD

30 Ionawr 2018

Annwyl Aelod Cynulliad,

Cyfarfu'r Bwrdd Taliadau ar 25 Ionawr. Mae'r canlynol yn grynodeb o'i drafodaeth a'i benderfyniadau, a diweddariad byr ar ei raglen waith.

***Adolygiad o gymorth staffio i'r Aelodau***

Hoffai'r Bwrdd ddiolch i'r holl Aelodau a staff cymorth sydd wedi cyfrannu at ei adolygiad o gymorth staffio i'r Aelodau hyd yn hyn, trwy gyfarfodydd un i un, y sesiwn galw heibio a gynhaliwyd ar 15 Ionawr a'r arolwg. Trafododd y Bwrdd y materion a godwyd hyd yn hyn yn y cyfarfod. Nodir cylch gorchwyl yr adolygiad yn yr atodiad i'r llythyr hwn. Hoffai'r Bwrdd annog cynifer â phosib o Aelodau a staff cymorth i rannu eu barn gyda'r Bwrdd erbyn 6 Chwefror, os nad ydynt wedi gwneud hynny eisoes, er mwyn llywio trafodaeth y Bwrdd. Bydd eich barn yn helpu i lywio blaenraglen waith y Bwrdd. Cysylltwch â'r **ysgrifenyddiaeth** i gael gwybod mwy am sut y gallwch chi rannu'ch barn gyda'r Bwrdd. Mae'r holl drafodaethau'n cael eu trin yn gyfrinachol.

***Adolygiad Blynyddol o'r Penderfyniad 2018-19***

*Cyflogau staff cymorth ar gyfer 2018-19*

Trafododd y Bwrdd y cynnydd blynyddol yng nghyflogau'r staff cymorth i'w gymhwyso o fis Ebrill 2018. Trafododd y cyd-destun ehangach o dâl ar draws y DU yn y sectorau cyhoeddus a phreifat.

Y llynedd, defnyddiodd y Bwrdd enillion canolrif blynyddol diweddaraf Cymru oedd ar gael ar gyfer staff amser llawn (fel y'i mesurwyd gan yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion) er mwyn cynyddu cyflog staff cymorth. Dyma'r mynegai sy'n berthnasol i dâl yr Aelodau. Cytunodd y Bwrdd mai hwn oedd y mynegai mwyaf addas ar gyfer penderfynu ar gynnydd cyflog priodol ar gyfer 2017-18.

Cafodd y ffigurau ASHE dros dro ar gyfer 2017 eu rhyddhau ym mis Hydref 2017 yn 2.3 y cant.

Felly, mae'r Bwrdd yn bwriadu cynyddu cyflogau staff cymorth ar gyfer 2018-19 gan 2.3 y cant yn unol â ffigurau dros dro 2017 ar gyfer enillion canolrif ASHE yng Nghymru.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Taliadau@cynulliad.cymru
0300 200 6565

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Remuneration@assembly.wales
0300 200 6565

*Lwfans costau swyddfa ar gyfer 2018-19*

Trafododd y Bwrdd y lwfans costau swyddfa ac a yw'n parhau'n briodol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018-19. Trafododd y Bwrdd nifer o ffactorau, gan gynnwys adborth diweddar gan Aelodau, gwariant Aelodau ar gostau swyddfa, chwyddiant ac effaith penderfyniad Comisiwn y Cynulliad i beidio â chyllido meddalwedd gweithwyr achos Aelodau yn ganolog.

Nododd y Bwrdd fod y cynnydd yn y lwfans costau swyddfa ar gyfer 2017-18 yn seiliedig ar y mynegai prisiau defnyddwyr (CPI) ar gyfer Medi 2016. Cytunodd y Bwrdd, er cysondeb, i ddefnyddio'r gyfradd CPI o fis Medi 2017, sef 3 y cant, fel sail wrth bennu'r cynnydd ar gyfer 2018-19. Yng ngoleuni'r adborth a dderbyniwyd gan Aelodau a staff cymorth, ystyriodd y Bwrdd oblygiadau cost y newid yn y trefniadau ariannu ar gyfer meddalwedd gweithwyr achos a gofynion estynedig y Cynllun Ieithoedd Swyddogol ar y lwfans costau swyddfa.

<u>Felly mae'r Bwrdd yn bwriadu cynyddu'r lwfans costau swyddfa gan 5 y cant yn unol â'r gyfradd CPI ar gyfer Medi 2017 ac i fynd i'r afael â'r gofynion cost ychwanegol y disgwylir i'r Aelodau eu cyllido o'u cyllideb.</u>

Trafododd y Bwrdd sylwadau a godwyd gan yr Aelodau a'u staff cymorth ynghylch hawlio am luniaeth i ymwelwyr. Mae'r Bwrdd o'r farn na ddylid ad-dalu hyn o dan y lwfans costau swyddfa.

Hefyd, trafododd y Bwrdd lwfans y gall Aelodau ei gael i gwrdd â chostau rhesymol unrhyw welliannau diogelwch gan na allai'r Bwrdd warantu y bydd y gronfa a neilltuir bresennol yn parhau y tu hwnt i'r flwyddyn ariannol gyfredol.

<u>Mae'r Bwrdd yn bwriadu cynnig lwfans diderfyn a gaiff ei gyfyngu i'r meini prawf [1] sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd i ganiatáu i'r Aelodau weithredu argymhellion diogelwch.</u>

*Gwariant ar Lety Preswyl ar gyfer 2018-19*

Trafododd y Bwrdd y Gwariant Llety Preswyl ar gyfer 2018-19 a bu'n trafod nifer o ffactorau, gan gynnwys gwariant Aelodau ar y lwfans hwn a'r farchnad rentu leol.

---

[1] Bod yr adolygiad diogelwch yn cael ei gynnal gan staff diogelwch hyfforddedig ac ystyrir bod yr argymhellion yn angenrheidiol (wedi'u categoreiddio fel 'rhaid' a 'dylid' at ddibenion yr adroddiad) a bod dau ddyfynbris neu fwy yn cael eu derbyn ar gyfer yr holl waith.

Mae'r Bwrdd wedi penderfynu y dylai'r lwfans cyfredol ar gyfer Aelodau'r ardal allanol o £9,200 y flwyddyn/£775 fesul mis calendr, yr uchafswm ar gyfer atgyweiriadau hanfodol o £882 y flwyddyn ac uchafswm y costau rhent ar gyfer Aelodau â dibynyddion o £120 y mis gael ei chynnal.

Anfonwch unrhyw ymatebion i'r cynigion uchod erbyn 2 Mawrth 2018 er mwyn llywio trafodaethau'r Bwrdd yn ei gyfarfod dilynol.

***Adolygiad i nodi rhwystrau a chymhellion o ran sefyll yn etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru***

Yn ei strategaeth ar gyfer 2016-2021 amlinellodd y Bwrdd mai un o'i brif flaenoriaethau yw archwilio a oes materion y gall fynd i'r afael â hwy o fewn ei gylch gorchwyl i ddenu dinasyddion o ystod eang o ddemograffeg ar draws Cymru i sefyll yn etholiadau'r Cynulliad. Bydd Aelodau'n ymwybodol y bu Canolfan Llywodraethiant Cymru yn llwyddiannus mewn proses dendro agored i ymgymryd â'r adolygiad. Mae'r Bwrdd bellach wedi derbyn adroddiad gan CLlC i'w ystyried a bydd yn trafod camau nesaf yr adolygiad, gan gynnwys cyhoeddi'r adroddiad, yn ei gyfarfod ym mis Mawrth.

***Adroddiad y Panel Arbenigol annibynnol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad.***

Nododd y Bwrdd yr adroddiad gan y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad, **Senedd sy'n gweithio i Gymru** (Rhagfyr 2017). Cytunodd y Bwrdd i aros am ganlyniad ymgynghoriad y Comisiwn ac unrhyw benderfyniad dilynol i gyflwyno deddfwriaeth cyn ystyried y goblygiadau ar Benderfyniad y Bwrdd ar gyfer y Chweched Cynulliad.

**Materion eraill**

Cytunodd y Bwrdd i ysgrifennu at Gomisiwn y Cynulliad i ofyn bod unrhyw gynigion deddfwriaethol i newid enw'r Cynulliad i Senedd Cymru hefyd yn cynnwys darpariaeth i newid enw'r Bwrdd yn ddiweddarach i "Bwrdd Taliadau Annibynnol Senedd Cymru".


Hysbyswyd y Bwrdd bod Caroline Jones AC wedi cael ei henwebu fel yr Aelod a enwebwyd gan y Comisiwn i'r Bwrdd Pensiynau yn lle Joyce Watson AC. Cymeradwyodd y Bwrdd yr enwebiad.

Bydd y llythyr hwn hefyd yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan yn ôl ein harfer arferol.

Os hoffech drafod unrhyw fater gyda mi, neu gydag un o fy nghyd-aelodau o'r Bwrdd, mae croeso i chi gysylltu â mi drwy'r ysgrifenyddiaeth.

BWRDD **TALIADAU**
**REMUNERATION** BOARD

Cofion gorau,



**Y Fonesig Dawn Primarolo**

**Cadeirydd, Y Bwrdd Taliadau**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Atodiad: Cylch gorchwyl**

Bydd y Bwrdd yn adolygu tystiolaeth bresennol a newydd sy'n ymwneud â'r lwfansau staffio a ddarperir i'r Aelodau, er mwyn sicrhau bod y cymorth ariannol sydd ar gael yn cefnogi pwrpas strategol y Cynulliad ac yn hwyluso gwaith ei Aelodau yn ogystal â sicrhau bod y system o gymorth ariannol i Aelodau yn gadarn, yn glir, yn dryloyw, yn gynaliadwy ac yn cynrychioli gwerth i'r trethdalwr.

Bydd yr adolygiad yn ystyried:

- digonolrwydd lefel y cymorth a roddir i Aelodau;
- hyblygrwydd a rhagnodoldeb y system gymorth bresennol ar gyfer Aelodau; ac
- addasrwydd telerau ac amodau presennol y Staff Cymorth.